# Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu

## Pecyn Recriwtio






LABC

Rheolaeth Adeiladu | Building Control

CYNGOR GWYNEDD

# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais ar gyfer y swydd hon. Mae Gwynedd yn adnabyddus am ei harddwch naturiol, ond mae'r sir yn unigryw ac amrywiol a'n huchelgais ni fel Cyngor yw gweld ein cymunedau a'n pobl yn ffynnu.

Mae'r swydd hon yn gyfle gwirioneddol i unigolyn talentog fod yn rhan o'r Tîm Rheolaeth Adeiladu sy'n gweithio'n arloesol, ac er lles ein pobl. Rydym ni'n eithriadol o falch eich bod chi'n ystyried ymuno gyda ni wrth i ni weithio tuag at wireddu ein nodau yn y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.

Am ragor o fanylion am weithio i'r Cyngor a gwybodaeth am sut i ymgeisio ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi** ar wefan Cyngor Gwynedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ar gael yma **www.gwynedd.llyw.cymru/RheolaethAdeiladu**

Yn y cyfamser, os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol am unrhyw ran o'r swydd, cysylltwch â Martin Evans, Rheolwr Rheolaeth Adeiladu ar **01341 424396 / 07917 557701** neu e-bostiwch: **martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru**

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais.



LABC

Rheolaeth Adeiladu | Building Control

CYNGOR GWYNEDD

# Hysbyseb Swydd

**Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu**

**£37,336 - £39,186, ac £1,600 y flwyddyn pro-rata (Rota ar-ddyletswydd Strwythurau Peryglus)**
**Cyfanswm gwerth buddion gan gynnwys cyfraniad pensiwn CPLlL ( £46,878 - £49,106)**

- Cefnogaeth wedi'i hariannu'n llawn i dderbyn Siarteriaeth i gorff perthnasol (MCABE/MRIC S/MCIOB), a'r hyfforddiant a chymwysterau angenrheidiol er mwyn cael trwydded BSR o ddod yn Arolygydd Rheolaeth Adeiladu cofrestredig.
- Gwyliau hael gyda hyd at 33 diwrnod i ffwrdd bob blwyddyn, gwyliau banc, a hyd at 13 diwrnod ychwanegol i ffwrdd bob blwyddyn dan ein cynllun oriau ystwyth 'Super-flexitime'.
- Gweithio hyblyg - cyflogwr sy'n ymroddedig i ystyried a chefnogi staff i weithio'n hyblyg, fel modd o gael cydbwysedd iach rhwng ymrwymiadau personol a gwaith.

Mae hwn yn gyfle gyrfa cyffrous i ymuno â Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd.



LABC

Rheolaeth Adeiladu | Building Control

CYNGOR GWYNEDD

Ar hyn o bryd, rydym ni'n chwilio am Syrfëwr Rheolaeth Adeiladu talentog a brwdfrydig i ymuno â'n tîm cyfeillgar a phroffesiynol, sydd ag enw da am gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws sir brydferth Gwynedd. Mae trigolion Gwynedd ymysg yr hapusaf yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried bod mwyafrif helaeth y sir o fewn ardaloedd o harddwch eithriadol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Gydag amgylchedd glân a hamddenol, mae mynyddoedd ac arfordir Gwynedd yn hafan ddelfrydol i adfywio'r enaid. Mae ein cymunedau ymysg y diogelaf yn y wlad, ac mae ein dwyieithrwydd naturiol yn cyfoethogi'r diwylliant lleol ym mhob agwedd o fywyd. Mae'n lle gwych i fagu'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r ysgolion a cholegau addysg bellach yn y sir yn cynnig addysg a hyfforddiant heb ei ail.Yn syml, mae Gwynedd yn lle anhygoel i fyw.

Wrth weithio dan gyfarwyddyd yr arweinydd tîm Rheolaeth Adeiladu fe fyddwch yn gyfrifol am eich ardal ddaearyddol a'ch llwyth gwaith eich hun, yn ogystal â chyfrannu at waith ar draws y sir fel bo'r angen. Byddwch yn gallu delio gyda'r amrediad llawn o ddyletswyddau Rheolaeth Adeiladu gan gynnwys archwilio cynlluniau, archwiliadau safle, strwythurau peryglus a gwaith gorfodaeth, yn ogystal â darparu cyngor proffesiynol i benseiri, asiantau, datblygwyr, aelodau etholedig, y cyhoedd, am holl agweddau'r gwaith Rheolaeth Adeiladu.

I fod yn llwyddiannus, bydd gennych ddyheadau i ddatblygu'r gwasanaeth a gweithio ar brosiectau newydd a chyffrous, a darparu gwasanaeth gwych ar gyfer pobl Gwynedd.
Fel tyfiant gwasanaeth, hyfforddiant a datblygiad tîm i ddarparu lefel uchel o wasanaeth yn arloesol yn ystod cyfnod o newid, gyda gweithrediad y ddeddfwriaeth Diogelwch Adeiladu.





LABC

CYNGOR GWYNEDD

Mae nifer o fanteision o weithio i ni, gan gynnwys:

- Gweithio hyblyg, rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi ein gweithwyr i gydbwyso eu bywyd cartref a gwaith ac i allu gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae cynllun 'Super-Flexitime' hefyd yn cael ei weithredu sy'n gallu helpu i reoli gwaith ac ymrwymiadau personol.
- Hyfforddiant a Datblygiad - dilysiad medrusrwydd a chymwysterau LABC, CPD a digwyddiadau hyfforddiant wedi'u hariannu'n llawn.
- Taliad blynyddol o un aelodaeth o gorff proffesiynol sy'n berthnasol i Reolaeth Adeiladu.
- Mae Cynlluniau Aberthu Cyflog yn gwneud arbediadau enfawr gyda - chynlluniau Car prydles a 'Cycle2Work'.
- Cynllun prynu car cynorthwyedig.
- Disgownt Ffordd o Fyw Buddion y Gweithiwr - cannoedd o ddisgowntiau mewn siopau a bwytai lleol a chenedlaethol, gwyliau a llawer mwy.
- Cyflogwr sy'n anelu i gyrraedd y safon uchaf wrth reoli iechyd, diogelwch a lles ei staff.

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig pecyn cyflogaeth atyniadol, mae gwybodaeth am y buddion yma **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Os oes gennych ddull positif o weithio mewn tîm i ddarparu gwasanaeth ac yn dymuno gweithio yn sir brydferth Gwynedd, dyma gyfle gwych i ddatblygu eich sgiliau a chael gwir effaith wrth wella ein gwasanaethau.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Martin Barrow Evans,
Rheolwr Rheolaeth Adeiladu ar 01341 424396 / 07917 557701.





LABC

CYNGOR GWYNEDD

# Swydd Ddisgrifiad

**Pwrpas y Swydd**

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu gyda gweinyddiaeth a gorfodaeth y Rheoliadau Adeiladu presennol a'r ddeddfwriaeth dan oruchwyliaeth uniongyrchol yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu, i sicrhau gwasanaeth effeithlon, cost effeithiol, rhagweithiol ac atebol.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cyngor i sicrhau bod y targedau perfformiad a'r Cynllun Busnes yn cael eu bodloni.
- Arwain a goruchwylio sefyllfaoedd Strwythurau Peryglus dan Adran 77 a 78, Hysbysiadau Dymchwel dan Adran 80 ac 81, ac A79 (Adeiladau adfeiliedig a dadfeiliedig) Masnachol y Ddeddf Adeiladu 1984.



**Cyfrifoldeb am swyddogaethau, e.e. staff, cyllidebau, offer**

- Cynorthwyo'r Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu i fentora a hyfforddi Syrfewyr Rheolaeth Adeiladu dan Hyfforddiant/Cynorthwyol.
- Dirprwyo i'r Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu yn ei absenoldeb.
- Cynorthwyo i sicrhau bod yr uned a'r gwasanaeth yn cwrdd â thargedau'r uned, yr adran a'r Cyngor mewn perthynas â pherfformiad a materion ariannol.
- Sicrhau bod ffioedd Rheoliadau Adeiladu cywir yn cael eu dyfynnu i'r cwsmer.
- Cyfrifoldeb am gerbyd(au) y Cyngor, offer syrfeio pan fydd yn cael ei ddefnyddio, ac Offer Diogelu Personol.
- Cynorthwyo'r Uwch Dîm Rheoli wrth weithredu/parhau i wella systemau TG effeithlon, a gweithdrefnau, yn cynnwys LABC ISO 9001:2015 QMS.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.

LABC

CYNGOR GWYNEDD

**Prif Ddyletswyddau**

Prosesu Ceisiadau Rheoliadau Adeiladu

• Cais cynlluniau llawn - Archwilio cynlluniau (gwirio) lluniadau pensaernïol / manyleb a gwybodaeth berthnasol arall i asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y Rheoliadau Adeiladu a deddfwriaeth berthynol, gan ofyn am wybodaeth ychwanegol pan fo diffyg gwybodaeth.

• Ymgynghori gyda swyddog tân ar lwybr dianc a rhagofalon tân, ac ymgynghorion statudol eraill.

• Argymhelliad o benderfyniad ar y cais - penderfyniadau wedi eu gwneud o fewn y cyfnodau amser statudol.

• Hysbysiadau adeiladu, unioni a gwirio ceisiadau refersiwn, gan ofyn am wybodaeth ychwanegol i sicrhau cydymffurfio.

• Asesu a oes gan y cynlluniau a adneuwyd/hysbysiadau adeiladu angen cyfrifiadau strwythurol sylweddol.

• Syrfëwr arweiniol i gwmni partner dan Gynllun Partner LABC i gleientiaid penodol fel a gyfarwyddwyd gan yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu.



LABC

CYNGOR GWYNEDD

**Prif Ddyletswyddau (parhau)**

Cynnal archwiliadau safle

• Cynnal archwiliadau safle i geisiadau a chyn cyflwyno ceisiadau Rheoliadau Adeiladu, pan fo angen.

• Rheoli ardal yng Ngwynedd ar gyfer archwiliadau safle, cynnal archwiliadau safle o waith adeiladu sydd ar y gweill o ddechrau'r gwaith i'w gwblhau, yn cynnwys rheoli gwaith adeiladu anawdurdodedig.

• Archwiliadau traws ffiniol pan fo angen dan waith Partneriaeth LABC.

• Cadw cofnodion cywir a chyfredol o archwiliadau safle drwy system waith Agile yr uned.

• Ymchwilio i waith adeiladu anawdurdodedig yn cynnwys cynnal archwiliadau mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth posib â'r Rheoliadau Adeiladu. Ymgymryd ag ymgynghoriadau fel bo'n briodol gan adrodd canfyddiadau unrhyw archwiliadau o'r fath i'r Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu.

• Argymhelliad o gwblhad boddhaol o'r gwaith adeiladu - tystysgrifau cwblhau i'w cyflwyno o fewn y dyddiad targed.

• Cynnal archwiliadau o strwythurau peryglus, a hysbysu partïon eraill i weithredu fel bo'n briodol i sicrhau bod yr adeilad/strwythur yn cael ei wneud yn ddiogel.

• Delio gyda hysbysiadau dymchwel a chynnal archwiliadau safle i sicrhau bod gwaith dymchwel yn cael ei weithredu gan gydymffurfio gyda Hysbysiadau adran 80/81 ble fo angen.

• Cymryd rhan, ac os oes angen, arwain cyfarfodydd safle i gynorthwyo'r Awdurdod Tân ac adrannau eraill o'r Cyngor pan fo angen.





LABC

CYNGOR GWYNEDD

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill**

- Darparu cyngor Cyn Cyflwyno Cais i gwsmeriaid, hyrwyddo'r gwasanaeth a chynorthwyo i sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda'r Rheoliadau Adeiladu.
- Darparu cyngor i'r cyhoedd, aelodau a chydweithwyr ar y broses rheoliadau adeiladu a gofynion technegol.
- Yn gyffredinol, hyrwyddo'r gwasanaeth rheolaeth adeiladu i gwsmeriaid presennol ac arfaethedig i gynnal a denu busnes.
- Gwella boddhad y cleient a chynnal perthnasau effeithiol gyda rhanddeiliaid eraill fel cydweithwyr, y cyhoedd a'r aelodau.
- Paratoi profion o dystiolaeth/datganiadau tyst gan fynychu'r Llys fel bo angen i weithredu fel tyst proffesiynol i roi tystiolaeth mewn achosion Llys.
- Gweithio ar y cyd gyda thimau eraill yn y Cyngor, yn enwedig gyda Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Tai a Chartrefi Gwag o safbwynt gorfodaeth a rhoi'r cyngor angenrheidiol.
- Delio gyda ac ymateb i ymholiadau gan Gyfreithwyr ynglŷn â gwerthu tir ac adeiladau.
- Delio gyda Chwiliadau Tir pan fo angen.
- Unrhyw gais rhesymol arall gan yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Adeiladu neu'r Rheolwr Rheolaeth Adeiladu.
- Sicrhau hunan-ddatblygiad a hyfforddiant i lefel medrusrwydd briodol (dan ofynion matrics medrusrwydd LABC), ac yn unol ag anghenion y gwasanaeth.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodwyd yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu oddi mewn i bolisïau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor.
- Sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data.

LABC

CYNGOR GWYNEDD

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill (parhau)**

- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac annog eraill i weithio'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall rhesymol sy'n cyfateb â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.

Amgylchiadau Arbennig, e.e. yr angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig ac ati.

- Bydd angen i ddeilydd y swydd weithio mewn modd hyblyg, gyda gofyniad i ymweld â safleoedd adeiladu a weithredir ac a reolir gan gontractwyr preifat.
- Bydd deilydd y swydd yn datblygu sgiliau mewn asesiad risg dynamig o safleoedd i sicrhau eu bod yn ddiogel i gael mynediad iddynt i ddibenion cynnal archwiliadau.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd yn ddyddiol i ddefnyddio cryn dipyn ar PC/Gliniadur.
- Disgwylir i ddeilydd y swydd weithio mewn modd hyblyg drwy dasgau a lleoliadau ar draws y Cyngor.
- Bydd peryglon arferol yn gysylltiedig gyda gweithrediadau ar safleoedd yn cynnwys gweithio mewn ffosydd, ar uchder ar ysgolion, a bod yn agored i ddeunyddiau peryglus, ond gydag offer diogelu personol addas ar gael.
- Mae'n bosib y bydd yn gorfod wynebu sefyllfaoedd lle bydd gwrthdaro.
- Bydd mewn cerbyd, yn gyrru ymhob tywydd.
- Bydd yn gorfod gwisgo dillad gwarchod addas.
- Gweithio'n unigol.



- Mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus ac ati, y gofyn i weithio y tu allan i oriau swyddfa.
- Gweithio tu allan i oriau swyddfa o ran bod ar alwad a galwadau i fynd allan i weld strwythurau peryglus.

LABC

CYNGOR GWYNEDD

# Manylion y Person

**Nodweddion personol**

**Hanfodol** - Sgiliau gwaith tîm da, sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da, sgiliau dadansoddi da. Dibynadwy gydag Ethig Gwaith Gref, agwedd aeddfed a phroffesiynol, y gallu i addasu a hyblygrwydd yn y rôl.

**Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol**

**Hanfodol** - Arolygydd Adeiladau Cofrestredig (RBI) ar lefel categori Domestig neu Gyffredinol gyda BSR, neu'n gweithio tuag at gofrestru i'r dyddiad cau statudol. Lleiafswm o HND/HNC, mewn cymhwyster Astudiaethau Adeiladu neu gymhwyster perthynol neu gyfwerth.
**Dymunol** - Aelod siartredig o RICS, CABE neu CIOB yn nisgyblaeth Rheolaeth Adeiladu. Gradd mewn Rheolaeth Adeiladu neu Syrfeio Adeiladau. Cymhwyster Lefel 4, 5 a 6 LABC.

**Profiad perthnasol**

**Hanfodol** - Profiad o'r gwaith a wneir gan Swyddog Rheolaeth Adeiladu/Syrfëwr. Profiad o strwythurau peryglus, a deddfwriaeth gorfodaeth. Sgiliau rhyngbersonol da, y gallu i reoli eu llwyth gwaith eu hunain, sgiliau TG da a phrofiad o feddalwedd system Rheolaeth Adeiladu.
**Dymunol** - Profiad o ymgymryd ag asesiadau diogelwch ar feysydd chwaraeon. Profiad/gwybodaeth o ISO 9001, neu systemau rheoli ansawdd tebyg.

**Sgiliau a gwybodaeth arbenigol**

**Hanfodol** - Dealltwriaeth o'r Rheoliadau Adeiladu, Ddeddf Adeiladu 1984, a gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Gysylltiedig a phrofiad mewn strwythurau peryglus a deddfwriaeth gorfodaeth. Sgiliau rhyngbersonol da, y gallu i reoli eu llwyth gwaith eu hunain, trwydded yrru lawn a defnydd o gar, y gallu i weithio dan bwysau.
**Dymunol** - Egwyddorion peirianneg tân, profiad Asesiad SAP, gwybodaeth am ISO 9001, neu systemau rheoli ansawdd tebyg.



LABC

CYNGOR GWYNEDD

# Manylion Person (parhad)

**Gofynion ieithyddol**

**Gwrando a Siarad**
Gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Darllen a Deall**
Gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.

**Ysgrifennu**
Gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd.

Cymraeg

LABC

CYNGOR GWYNEDD

# Amserlen ac ymgeisio

I ymgeisio am y swydd, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

Gofynnwn i chi adolygu'r Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno ddim hwyrach na 12, hanner dydd, ddydd Iau, 1 Chwefror 2024. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yn fuan wedi hynny.

Cysylltwch â Martin Barrow Evans i wneud ymholiadau anffurfiol ar **01341 424396 /07917 557701** neu e-bostiwch **martinbarrowevans@gwynedd.llyw.cymru**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses neu addasiadau rhesymol cysylltwch â **DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru**



LABC

Rheolaeth Adeiladu | Building Control

CYNGOR GWYNEDD